Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gosodwyd OS yn San Steffan sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig sef Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) Cymru a Lloegr 2023 ("Rheoliadau 2023")** |
| **DYDDIAD** | **30 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Yn 2019, cytunodd Gweinidogion ar draws y DU i gyflwyno trefn Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig newydd ar gyfer pecynnu (pEPR) i ddisodli'r cynllun pecynnu presennol. Mae'r dyddiad cychwyn arfaethedig ar gyfer pEPR newydd 2024 wedi'i ohirio oherwydd pryderon parhaus gan gynhyrchwyr a'r angen am waith pellach ar y Rheoliadau drafft. Mae gweinidogion felly wedi cyhoeddi oedi o 12 mis. Er mwyn ymdrin â'r bwlch a fydd yn bodoli rhwng y targedau a osodwyd o dan y cynllun presennol, sy'n dod i ben yn 2023, bydd y rheoliadau'n cyflwyno'r targedau cyfrifoldeb cynhyrchwyr pecynnu presennol ar gyfer 2023 (ac eithrio pren a fydd yn cynyddu o 35% i 42%).

Felly, gofynnwyd am gytundeb gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon Gweinidog dros Fioddiogelwch, Môr a Materion Gwledig i wneud Offeryn Statudol (SI) o'r enw Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (Gwastraff Pecynnu) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2023 i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

Bydd yr OS o dan y teitl uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 50 o a pharagraffau 1(1) a 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynnu) 2007 (O.S. 2007/871) sy'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr pecynnu i ailgylchu gwastraff pecynnu i gyrraedd targedau ailgylchu cyffredinol ac ailgylchu sy'n benodol i ddeunydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod targed ailgylchu cyffredinol yn ogystal â thargedau ailgylchu sy'n benodol i ddeunydd ar gyfer 2024 ar gynhyrchwyr rhwymedig yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â gwydr, plastig, alwminiwm, dur, papur/cardbord, a phren yn ogystal â tharged ail-doddi penodol ar gyfer gwydr.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 22 Tachwedd a byddant yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024.